Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

## *Crynodeb o Wybodaeth Ariannol 2015/16*

(Endid Unigol)

Cyflwyniad

1.1 Mae'r Crynodeb hwn o Wybodaeth Ariannol yn anelu i ddarparu canllaw effeithiol, hawdd ei ddeall i rai o'r materion mwyaf arwyddocaol yr adroddwyd amdanynt yng nghyfrifon Prif Gwnstabl Dyfed-Powys. Hefyd, mae'n darparu peth gwybodaeth gyd-destunol ar yr amgylchedd ariannol a fydd hefyd yn berthnasol.

2.0 Ynglŷn â Datganiad o Gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

2.1 Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16. Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 pob Prif Gwnstabl yn endid unigol neu 'corfforaethau unigol' ynddynt eu hunain ar 21 Tachwedd 2012. Dyma'r bedwaredd set o gyfrifon statudol a baratowyd gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys o dan y trefniadau hyn.

2.2 Nodir sefyllfa ariannol Grŵp y Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys mewn dogfen Datganiad o Gyfrifon ar wahân a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

2.3 Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i bob corff llywodraethol gyflwyno Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Nodir fod y Cod yn cynrychioli arferion priodol.

3.0 Beth sydd yn y Datganiad o Gyfrifon?

3.1 Mae'r datganiad o gyfrifon yn rhoi manylion pellach ynghylch materion ariannol y Prif Gwnstabl ac yn cynnwys:-

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol;** mae hyn yn nodi barn yr archwilydd annibynnol, Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch pa un ai a yw'r cyfrifon Prif Gwnstabl a gyflwynir yn rhoi 'safbwynt gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2015/16;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon;** mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;** mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys pob cost dydd i ddydd ac incwm perthnasol ar sail croniad, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth amcanol real buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen;** mae'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl ar ddyddiad y Fantolen. Gan fod Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn datgan na chaiff y Prif Gwnstabl ddal arian parod, mae asedau a rhwymedigaethau cyfredol y Prif Gwnstabl yn cael eu mantoli i ddim drwy drosglwyddiadau o fewn y grŵp rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n cael eu dileu o gyfrifon y grŵp**.**
- **Cynhwysir nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol** hefyd, sy'n nodi'r Datganiad o'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddir fel sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol a rhoi gwybodaeth bellach sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer.

- Mae angen **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn** fel rhan o'r Cod a byddai'n dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Prif Gwnstabl; fodd bynnag, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal cronfeydd wrth gefn, nid oes angen y datganiad hwn;
- Datganiad yw cyfrif **Cronfa Bensiwn yr Heddlu** sy'n dangos gwarian, incwm, asedau ac atebolrwydd sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu yn y flwyddyn. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau gweinyddu'r cynlluniau pensiwn, a chynnal a darpariaeth briodol o'r cyfrifon perthnasol.
- Cynhwysir y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** o fewn y Datganiad o Gyfrifon hwn ac mae'n nodi sut y mae'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu ei faterion ei hun. Mae'r datganiad yn ddogfen statudol sydd hefyd yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau Llywodraethu, ac yn rhoi sicrwydd ynghylch y systemau o reoli mewnol a gynhelir gan y Prif Gwnstabl.

4.0 <u>Beth mae'r Datganiad Ariannol yn dweud wrthym</u>

4.1 Mae'r holl incwm a dderbynnir ac a gesglir ar gyfer ardal heddlu Dyfed-Powys yn mynd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Gan hynny, mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y Prif Gwnstabl yn canolbwyntio ar wario yn unig ac mae'n dangos bod y Prif Gwnstabl wedi gwario £114.4 miliwn ar ddarparu gwasanaethau plismona i Gyhoedd Heddlu Dyfed-Powys yn 2015/16, sy'n agos i'r gyllideb wreiddiol. Mae hun tua £3.1 yn llai na'r ffigwr cymharol a wariwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

4.2 Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn darparu hollt o'r ffigwr hwn ar draws yr un ar ddeg prif elfen gwasanaeth. Er enghraifft, gellir gweld bod yr elfen fwyaf wedi'i gwario ar Blismona Lleol, a oedd yn cyfrif am £57.2 miliwn o'r cyfanswm yn 2015/16.

4.3 Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon ar sail arfer cyfrifyddu priodol a gofynion y Cod ac mae hyn ychydig yn wahanol i'r gyllideb y mae'r Prif Gwnstabl yn cael ei ddal i gyfrif ar gyfer ar sail dydd i ddydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys elfennau o incwm a hefyd yn eithrio rhai elfennau megis dibrisiad a symudiadau ar atebolrwydd pensiwn nad ydynt angen eu hariannu'n llawn yn y flwyddyn o dan statud.

4.4 Mae'r Fantolen ar gyfer y Prif Gwnstabl yn cael ei ddominyddu gan yr atebolrwydd hirdymor o £1,012 miliwn sy'n bodoli mewn perthynas ag atebolrwydd pensiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddogion a staff heddlu. Mae hyn yn cynrychioli'r swm y byddai angen i'r Prif Gwnstabl roi naill ochr ar ddyddiad y fantolen i ddarparu ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer pob swyddog ac aelod staff sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac sydd wedi ymddeol. Mae'r ffigwr hwn wedi'i gyfrifo'n annibynnol yn ôl ystadeg yswiriant ac mae'n ystyried lefelau cyflog yn y dyfodol, chwyddiant, cyfradd marwolaethau ayyb. Mae'n bwysig nodi y bydd y Llywodraeth yn talu am gostau pensiwn heddlu cyfredol a chostau'r dyfodol.

4.5 Mae'r Fantolen hefyd yn dangos gwerth lifrai a stocrestrau eraill y mae'r Prif Gwnstabl yn dal (£368,000) a symiau sy'n ddyledus i (£339,000 - Dyledwyr) neu'n ddyledus gan (£5.6 miliwn credydwyr) y Prif Gwnstabl ddiwedd y flwyddyn. Ceir crynodeb llawnach o'r symiau hyn yn y nodiadau i'r cyfrifon.

5.0 <u>Perfformiad yn 2015/16 yn erbyn cyllideb Refeniw'r Prif Gwnstabl</u>

5.1 Fel yr amlinellir uchod, mae'r gyllideb net y mae'r Prif Gwnstabl yn cael ei ddal i gyfrif ar gyfer ar sail dydd i ddydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n

wahanol i'r swm sy'n rhaid ei riportio yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan arfer priodol.

5.2 Gosodwyd cyllideb net o £94.1 miliwn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn 2015/16 a oedd yn cynnwys gostyngiad treth gyngor o 5% ar fand D a oedd yn dibynnu ar ddefnyddio £3.0 miliwn o gronfeydd wrth gefn er mwyn cynnal gwario cyfredol. Roedd hyn yn setliad arbennig o heriol i'r Prif Gwnstabl gyflawni yn ei erbyn.

5.3 O fewn y lefel gwario gwaelodlin hwn hefyd, roedd yr Heddlu eisoes wedi nodi gostyngiadau cost o £3.6 miliwn a oedd i'w cyflwyno yn 2015/16 yn bennaf drwy "Y Cyhoedd Yn Gyntaf" - rhaglen sy'n ceisio ail-alinio'r strwythurau sy'n cefnogi plismona gweithredol â'u gwneud nhw'n effeithiol â chyn lleied o adnoddau â phosibl. Roedd gostyngiadau sylweddol o ran gwario nad oedd yn gysylltiedig â chyflog trwy nifer o fentrau caffael a mentrau lleihau costau eraill.

5.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa derfynol o ran alldro ar gyfer 2015/16 o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol a diwygiedig ar gyfer y Prif Gwnstabl. Yn ogystal, dangosir cyllideb ddiwygiedig yn y tabl sy'n adlewyrchu cyllidebau a symudiadau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

| | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Amrywiant (Negyddol ar gyfer Arbed) |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau Gweithwyr | 86,882 | 87,636 | 86,654 | -228 |
| Costau Adeiladau | 3,401 | 3,563 | 3,706 | 305 |
| Costau Trafnidiaeth | 2,771 | 2,740 | 2,142 | -629 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 8,602 | 8,176 | 8,334 | -268 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract | 2,385 | 2,106 | 3,825 | 1,440 |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **104,041** | **104,221** | **104,661** | **620** |
| Ychwanegu: Costau Ariannu | 1,069 | 1,069 | 12,097 | 11,028 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **105,110** | **105,290** | **116,758** | **11,648** |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau'r Llywodraeth | -6,844 | -6,897 | -7,067 | -223 |
| Ffioedd, costau ac incwm gwasanaeth arall | -3,926 | -3,919 | -4,806 | -880 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-10,770** | **-10,816** | **-11,873** | **-1,103** |
| **Gwariant Net a ariennir gan y CHTh** | **94,340** | **94,474** | **104,885** | **10,545** |
| Cyfraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | **-2,977** | **-3,602** | **-14,013** | **-11,036** |
| | **91,363** | **90,872** | **90,872** | **-491** |

Mae'r adroddiad hwn ar fformat dadansoddiad goddrychol, a ddefnyddir gan reolwyr mewnol ar gyfer dibenion adrodd yn erbyn y gyllideb. Mae'r fformat hwn yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a darperir cysoniad rhwng y ddau fformat yn Nodyn 12 i'r Cyfrifon.

5.5 Gellir gweld bod gostyngiad yn y gyllideb o £491,000 wedi'i gymeradwyo yn y flwyddyn. Roedd hyn mewn perthynas â'r Rhaglen Ailhyfforddi Gyrwyr.

5.6 Roedd yr Heddlu angen trosglwyddo £14.0 miliwn o gronfeydd wrth gefn o gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £3.0 miliwn. Bu gorwariant cynlluniedig sylweddol sydd wedi arian at ostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn ariannol a ddelir gan y Comisiynydd oherwydd y penderfyniadau canlynol a gymerwyd gan y Comisiynydd yn 2015/16 nad oedd wedi'u hystyried yn y gyllideb wreiddiol;

i. ad-daliad ychwanegol o £7.0 miliwn o ddyled heb ei thalu yn ein llyfrau sy'n arbed £300,000 y flwyddyn.

ii. effaith gyllidebol prynu allan o'r cytundeb menter ariannu breifat sy'n arbed £500,000 y flwyddyn.

iii. mae cronfa wrth gefn a glustnodwyd o £0.8 miliwn wedi'i derbyn mewn perthynas â Gan Bwyll, sydd bellach yn cael ei weinyddu gan yr Heddlu.

5.7 Roedd y sefyllfa waelodol mewn perthynas â chyfraniad o gronfeydd wrth gefn o ran elfennau a reolir gan y Prif Gwnstabl yn agos iawn i'r gyllideb wreiddiol fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| **Disgrifiad** | **£M** |
|---|---|
| **Cyfanswm y cyfraniad gwirioneddol o gronfeydd wrth gefn o'r Tabl uchod** | **14.0** |
| Llai: Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â therfynu'r fenter ariannu breifat | -3.6 |
| Llai: Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas ag ad-daliad Benthyca | -7.0 |
| Llai: Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas ag Ariannu Cyfalaf | -1.3 |
| Llai: Trosglwyddiad GanBwyll o i Gronfeydd wrth gefn o Gyngor Sir y Fflint | +0.8 |
| **Trosglwyddiad Gwirioneddol o Gronfeydd wrth gefn o Weithgareddau'r PG** | **2.9** |
| **Trosglwyddiad Wedi'i Gyllidebu o Gronfeydd Wrth Gefn** | **3.0** |

5.8 Darperir esboniad cryno o'r prif resymau dros yr amrywiadau yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 isod:

i. *Costau sy'n gysylltiedig â staff yr heddlu:* *Mae costau staffio £228,000 yn brin o'r gyllideb wreiddiol ar gyfer 2015/16. O fewn hyn, mae amrywiad wedi bod yn amlwg ar draws penawdau cyflog, goramser ac argost ar gyfer pob grŵp staff. Roedd gwariant o ran ymddeoliad swyddogion heddlu ar sail iechyd yn is na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn o oddeutu £412,000, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r tanwariant net.*

ii. *Penawdau Adeiladau:* *Mae'r Heddlu wedi gorwario o £305,000 yn erbyn y gyllideb adeiladau wreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Proseswyd trosglwyddiad cyllideb i mewn i'r bennawd hon yn ystod y*

*flwyddyn o'r pennawd "Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract" er mwyn ystyried y cytundeb Menter Ariannu Breifat Rhydaman a'r angen canlynol i'r Heddlu dalu costau cynnal ar gyfer yr orsaf hon yn uniongyrchol o fis Mehefin 2015.*

*iii.* *<u>Penawdau'n ymwneud â Thrafnidiaeth:</u> Tanwariodd yr heddlu yn erbyn y gyllideb wreiddiol ar gyfer costau trafnidiaeth o oddeutu £627,000. Elwodd yr heddlu o ostyngiadau sylweddol o ran costau tanwydd yn ystod y flwyddyn a gyfrannodd tua £320,000 tuag at y ffigwr arbedion. Yn ychwanegol at hyn, ymunodd yr heddlu â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu o fis Ionawr 2016 sydd wedi arwain at daliadau ar gyfer cynnal a chadw a chefnogi'r hofrennydd yn cael eu disodli gan un taliad cyfansawdd o'r pennawd "Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract" o'r dyddiad hwn.*

*iv.* *<u>Penawdau Cyflenwadau a Gwasanaethau:</u> Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr Heddlu wedi tanwario yn erbyn y gyllideb wreiddiol o tua £268,000. Mae nifer o amrywiadau o fewn y bennawd hon, gan gynnwys arbedion yn erbyn cyllidebau cymorth gwyddonol nad yw'n gysylltiedig â chyflog.*

v. *<u>Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract:</u> Gorwariodd y pennawd hwn o £1.440 miliwn, a hynny'n bennaf oherwydd effaith gyllidebol terfynu'r cytundeb Menter Ariannu Breifat Rhydaman. Ariannwyd hyn gan gyfraniad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn. Yn ogystal, talwyd £223,000 ar gyfer gwasanaeth Cefnogaeth o'r Awyr i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Cyfrannodd rhai cynyddiadau o ran cost ar gyfer darparu cymorth meddygol mewn dalfeydd a gweithredu gwasanaeth oedolion priodol at y sefyllfa gorwario hefyd.*

*vi.* *<u>Costau Ariannu Cyfalaf:</u> Mae'r pennawd hwn wedi'i effeithio gan benderfyniad y Comisiynydd i ad-dalu'r holl fenthyca hanesyddol sy'n weddill o gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn. Arweiniodd hyn at effaith gyllidebol untro ychwanegol o £7.0 miliwn. Yn ogystal, mae'r sefyllfa gorwario yn erbyn y pennawd hwn yn cael ei effeithio gan ad-dalu'r atebolrwydd sy'n weddill a ddelir yn erbyn y cytundeb Menter Ariannu Breifat Rhydaman o £2.47 miliwn. Rhoddwyd swm ychwanegol o £1.25 miliwn naill ochr o gronfeydd wrth gefn fel cyfraniad tuag at ariannu'r gwario cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Er bod hyn wedi'i gynllunio, nid oedd y trosglwyddiad hwn wedi'i adlewyrchu yng nghyllideb refeniw wreiddiol yr Heddlu.*

vii. *<u>Penawdau Incwm:</u>* Derbyniwyd cronfa wrth gefn a glustnodwyd o £0.847 miliwn fel incwm mewn perthynas â GanBwyll, a weinyddir bellach gan yr Heddlu. Nodwyd hefyd bod incwm ychwanegol yn ddyledus mewn perthynas â threfniadau rhannu safle hanesyddol.

<u>Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol ar y Prif Gwnstabl</u>

6.1 <u>Diwygio Pensiynau</u>

6.1.1 Ym mis Mawrth 2011 comisiynwyd yr Arglwydd Hutton gan y llywodraeth i gynnal adolygiad annibynnol i ddyfodol pensiynau'r sector cyhoeddus oherwydd bod pobl yn byw yn hŷn. Gan fod costau pensiwn wedi cynyddu o draean yn ystod y deng mlynedd diwethaf, daeth i'r casgliad nad yw'r cynlluniau cyfredol yn ddigon cadarn i fod yn gynaliadwy.

6.1.2 Cyflwynodd y llywodraeth Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd o fis Ebrill 2014 a Chynllun Pensiwn Heddlu newydd o fis Ebrill 2015. Y newidiadau allweddol yw:

- Symud o gynllun cyflog terfynol i gynllun Cyfartaledd Enillion Gyrfa wedi'i Ailbrisio
- Yr oed pensiwn arferol ar gyfer swyddogion yr heddlu fydd 60 tra bydd oed pensiwn arferol staff yr heddlu wedi'i gysylltu â'r Oed Pensiwn Gwladol
- Bydd cyfartaledd cyfraniad yr aelodau yn cynyddu gyda'r rheiny sy'n ennill mwy yn talu cyfraniadau uwch nag y maent ar hyn o bryd

6.1.3 Bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn symud baich y gost o'r cyflogwr (sef y trethdalwyr yn y pen draw) i'r gweithiwr, gan sicrhau bod pensiynau yn fwy teg a chynaliadwy yn y dyfodol.

6.1.4 Roedd y cynllun Pensiwn Cyfartaledd Enillion Gyrfa newydd a gyflwynwyd ar gyfer Swyddogion Heddlu ym mis Ebrill 2015 yn cynnwys trefniadau diogelu trawsnewidiol mewn perthynas â swyddogion sydd yn dod i ddiwedd eu gwasanaeth, a gan hyn, bydd yr effaith ariannol, er yn arwyddocaol ar gyfer rhai swyddogion sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, yn cymryd peth amser i lifo trwyddo.

6.2 Cyllideb y Prif Gwnstabl ar gyfer 2016/17 a'r Cynllun Tymor Canolig

6.2.1 O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys yn gyfrifol am bennu cyllideb i'r Prif Gwnstabl a Heddlu Dyfed Powys. Hefyd, mae'n gyfrifol am bennu asedau a chyllid i'r Prif Gwnstabl ac am osod y praesept ar gyfer yr ardal Heddlu. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n derbyn Grant Heddlu'r Swyddfa Gartref ac arian gan Lywodraeth Cymru

6.2.2 Pennwyd cyllideb refeniw net o £91.4 miliwn i'r Heddlu yn 2016/17 gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd hyn yn galluogi'r Prif Gwnstabl i ddiogelu gallu gweithredol o ran niferoedd Swyddogion Heddlu a staff yn gyffredinol gan ystyried y gwaith sy'n digwydd drwy'r Rhaglen "Gwario'n Ddoeth" mewn perthynas ag effeithlonrwydd a'r rhaglen waith ehangach sy'n cael ei chymryd ymlaen o gwmpas arloesedd, gwelliant, cynllunio'r gweithle a newid.

6.2.3 Mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2016/17 yn wastad yn gyffredinol o gymharu â 2015/16 yn nhermau ariannu gyda grantiau canolog yn gostwng o -0.6% a heb gynnydd yn y dreth gyngor ar Fand D. Mae cynnydd mewn sylfaen dreth o +0.7% yn golygu bod y gyllideb net ar gyfer yr Heddlu £22,000 yn uwch yn 2016/17 nag yn 2015/16.

6.2.4 Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn net cyfraniad o £3.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn nad oes modd cynnal, a bydd angen mynd i'r afael â hyn drwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae rhai cynyddiadau cost sylweddol yn gynwysedig yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 sydd angen eu hariannu drwy ostyngiadau cost, gan gynnwys cynyddiadau mewn cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yn ogystal â phwysau chwyddiant a chodiadau cyflog. Bu angen i'r heddlu adnabod y

newidiadau sydd angen er mwyn cyflwyno gostyngiadau cost o £4 miliwn yn 2016/17, ac mae'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

6.2.5 Mae'r Heddlu dal yn cadw cyllid llawr neu wanychiad sy'n cyfrif am £9 miliwn o gyfanswm ei ddyraniad grant llywodraeth ganolog o £50 miliwn. Mae'r Swyddfa Gartref wrthi'n cynnal adolygiad o'r trefniadau Ariannu Fformiwla, fodd bynnag, nid yw canlyniad hyn a'r effaith ar HDP yn glir ar hyn o bryd.

6.2.6 Er bod y cyhoeddiad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn fwy ffafriol na'r hyn a ofnwyd, mae heriau ariannol sylweddol a pheryglon a fydd yn parhau ar gyfer yr Heddlu y tu hwnt i 2016/17 a fydd angen derbyn sylw, gan gynnwys:

*i.* *Adolygiad Fformiwla*

*Dros y 24 mis diwethaf, mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn adolygu'r mecanwaith ariannu fformiwla a ddefnyddiwyd yn hanesyddol i bennu adnoddau rhwng ardaloedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgynghori ynghylch amryw o ddewisiadau yn ystod haf 2015 ac roedd penderfyniadau'n awgrymu'n wreiddiol y gallai'r Heddlu golli £0.6 miliwn o gyllid blynyddol o ymagwedd newydd arfaethedig. Nodwyd camgymeriadau yn y cyfrifiadau hyn ac roedd penderfyniadau eiledol yn awgrymu y gallai'r Heddlu golli oddeutu £7 miliwn mewn ariannu canolog o ganlyniad i'r newidiadau hyn.*

*Rhoddwyd y gorau i'r ymgynghoriad gwreiddiol, ac mae ymagwedd ddiwygiedig nawr yn cael ei ffurfio gan y Swyddfa Gartref. Nid yw amseru'r Adolygiad hwn a gweithredu unrhyw ganfyddiadau'n hysbys – fodd bynnag, ystyrir ei bod hi'n debygol y bydd yr Adolygiad yn effeithio ar y blaensefyllfa yn y tymor canolig.*

*ii.* *Gostyngiadau Ariannu Eraill*

*Yn ystod cyhoeddi'r Gyllideb ym mis Mawrth 2016, mae'r Canghellor wedi nodi gwaethygiad o ran y sefyllfa ariannol rhagweladwy ar gyfer y Wlad. Yn ogystal, mae arbedion penodol y bwriadwyd iddynt godi drwy newidiadau budd-daliadau'n cael eu hadolygu gan y Llywodraeth.*

*Ym mis Mehefin 2016, pleidleisiodd y Wlad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Adroddwyd y gallai hyn arwain at ansicrwydd ariannol a gwleidyddol pellach, ac o bosibl, bydd angen camau gweithredu lliniarol yn yr hydref er mwyn mynd i'r afael a hyn.*

*Credir y bydd angen i'r Llywodraeth ddod o hyd i ostyngiadau ychwanegol o ran gwario uwchlaw a thu hwnt i'r rhai a gyhoeddwyd adeg yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.*

*Er nad oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar y setliad Heddlu sy'n deillio o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae'n bosibl y bydd angen ailystyried y sefyllfa. Yn ogystal, mae peth perygl y gall setliadau i Heddluoedd gael eu heffeithio ymhellach gan frigdorri ar lefel Swyddfa Gartref na ellir ei ddisgowntio.*

*Mae'r Heddlu'n elwa o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru tuag at y Rhaglen Cyswllt Ysgolion a Swyddogion Cefnogi Cymunedol. Gall hyn fod mewn perygl hefyd pe na bai Llywodraeth Cymru'n cefnogi parhau â'r ariannu hwn ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2016.*

iii. <u>*Pwysau Gwario Eraill neu Anawsterau o ran y Cynllun Lleihau Costau*</u>

*Yn ogystal â'r uchod, mae perygl y gallai pwysau gwario uwchlaw a thu hwnt i'r rhai sydd wedi'u hadeiladau i mewn i'r model ariannol godi dros y cyfnod sy'n cael ei ystyried. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd yr arbedion a gynlluniwyd drw'r rhaglen 'Gwario'n Ddoeth' yn cael eu sylweddoli, neu efallai bydd angen adeiladu gallu gweithredol mewn meysydd eraill.*

6.2.7 Mae'r Heddlu wedi modelu amryw o senarios ariannol i ystyried peryglon a cholledion ariannol posibl ac wedi cynhyrchu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2016/17 tan 2020/21. Mae'n amlwg o hyn bod pwysiau pellach sy'n amrywio o +£0.6 miliwn i +£10 miliwn yn bosibl dros y cyfnod hwn. Er bod pwysau ychwanegol ar ben uchaf ac isaf y raddfa'n ymddangos yn annhebygol, mae tebygolrwydd rhesymol y gallai'r sefyllfa diffyg ariannol terfynol fod o gwmpas £4 miliwn i £8miliwn.

6.2.8 Mae'r Heddlu wedi bod yn ceisio lliniaru'r peryglon hyn yn rhagweithiol a lleihau eu heffaith ar gyflenwi gweithredol am beth amser. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion ariannol a nodwyd uchod, ffurfiwyd cynllun pum pwynt sy'n canolbwyntio ar:

i. Gyflwyno yn erbyn y cynlluniau sydd eisoes mewn grym gan ddefnyddio'r Rhaglen 'Gwario'n Ddoeth', Cydweithio, deall y galw a'r Strategaeth Plismona Digidol.

ii. Nodi trwy'r Fforwm Arweinyddiaeth Uwch a gwaith arall fesurau pellach y gellir eu hystyried i leihau'r galw a / neu'r gost.

iii. Sicrhau bod yr Heddlu a'r CHTh mewn sefyllfa i lobïo'n gryf mewn perthynas ag Adolygu'r Fformiwla Ariannu a dros yr amserlenni ar gyfer gweithredu unrhyw ostyngiadau sydd angen gan HDP.

iv. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiogelu buddsoddiad ac arian grant ar gyfer SCCH a swyddogion Cyswllt Ysgolion.

v. Gweithio gyda'r CHTh i sicrhau bod penderfyniadau praesept yn y dyfodol yn ystyried sefyllfa HDP fel yr heddlu sy'n derbyn y lleiaf o arian yng Nghymru a cheisio sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn gwaethygu yn y dyfodol.

6.3 <u>Gwerth am Arian</u>

6.3.1 Mae gwario arian yn ddoeth dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Prif Gwnstabl, a ffocws y gwaith sydd wedi bod yn digwydd er mwyn cefnogi hyn yw sicrhau bod yr adnoddau sydd gan yr heddlu'n cael eu sianeli tuag at gyflwyno blaenoriaethau strategol mewn ffordd sy'n cefnogi cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd yr Heddlu wrth fynd ymlaen.

6.3.2 Mae gan yr Heddlu Gynllun Arbedion cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2018/19 ac mae wedi sefydlu trefniadau rheoli prosiect priodol er mwyn cyflwyno yn erbyn hyn. Ffocws y gwaith hwn yn awr yw gweithredu gostyngiadau o ran swyddi rhingyll, moderneiddio'r gweithlu, cydweithio ac arbedion caffael pellach. Mae prosiectau pellach hefyd yn cael eu gweithredu sy'n edrych ar alw a dewisiadau darpariaeth adnoddau ar draws holl weithgarwch yr heddlu.

6.3.3 Mae gan yr Heddlu Raglen Gyfalaf sy'n gyrru cynlluniau buddsoddi sylweddol mewn perthynas â'r Ystadau, TGCh ac Amnewidiadau Fflyd sy'n dod i gyfanswm o £7.8 miliwn yn 2016/17 ac a fydd yn dod i gyfanswm o £27.5 miliwn erbyn 2019/20. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn adlewyrchu ymagwedd arfaethedig ac

wedi'i blaenoriaethu tuag at ein buddsoddiadau, ac mae'r rhain yn gysylltiedig yn agos â'n blaenoriaethau ac yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a gwelliant.

6.3.4 O ganlyniad i hyn, mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys bellach yn ddigidol symudol. Mae tua 663 o swyddogion rhang flaen wedi derbyn ffonau deallus sy'n eu caniatáu i gyflawni'r rhan fwyaf o'u dyletswyddau plismona pob dydd allan ar batrôl. Amcangyfrifwyd gan y swyddogion eu hun bod hyn yn cyfrannu at gynnydd sylweddol o ran amlygrwydd drwy ddileu'r angen ar gyfer dychwelyd i orsafoedd heddlu er mwyn cyflawni swyddogaethau gweinyddol rheolaidd.

*6.5 <u>Proffiliau AHEM 2015</u>*

6.5.1 Pob hydref, mae AHEM yn cynhyrchu nifer o broffiliau sy'n cymharu cyllidebau, pobl a pherfformiad gweithredol Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gyda phwyslais arbennig ar Grwpiau Heddlu Tebycaf; sy'n cynnwys yr heddluoedd canlynol ar gyfer Dyfed-Powys:

- Dyfed-Powys
- Swydd Lincoln
- Cymbria
- Norfolk

6.5.2 Derbyniwyd y data diweddaraf ym mis Hydref 2015, a oedd yn seiliedig ar gyllideb wreiddiol 2015/16. Mae hyn ar gael ar y wefan ganlynol:

https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/publications/dyfed-powys-2015-value-for-money-profile/

6.5.3 Gellir gweld o'r data hwn bod Heddlu Dyfed-Powys yn gwario lawer mwy o'i gyllideb ar y 'rheng flaen weithredol' na'r rhan fwyaf o Heddluoedd eraill a'i fod yn uwch o lawer na'r Heddluoedd hynny yn ei grŵp mwyaf tebyg. Mae'n amlwg y cyfrifir am lawer o'r gwahaniaeth rhwng HDP a'i Heddluoedd Mwyaf Tebyg yn yr elfen rheng flaen 'weladwy'.

6.5.3 Yn yr un modd, mae'r sefyllfa ar gostau cymorth busnes yn dangos bod Dyfed-Powys yn gwario llawer llai ar hyn fel cyfran o'i gyllideb na Heddluoedd eraill yn ei grwpio Heddlu Mwyaf Tebyg. Byddai hyn yn awgrymu sefyllfa waelodlin gyffredinol dda o ran gwerth am arian o ran sianelu adnoddau'r Heddlu tuag at weithgarwch rheng flaen o gymharu â Heddluoedd mwyaf tebyg. Mae meysydd ar gyfer gwella, megis cyfraddau goruchwyliaeth a lefelau gwario ar oramser, wedi'u nodi ac mae'r rhain eisoes wedi'u hymgorffori i gynlluniau arbedion ar gyfer y dyfodol ar gyfer 2016/17 a thu hwnt.

7. <u>Perfformiad yr Heddlu</u>

7.1 O ran perfformiad yr Heddlu, mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol i'r cyhoedd ac yn cefnogi Comisiynydd yr Heddlu o ran cyflwyno'r strategaeth a'r amcanion a nodir yn y Cynllun. Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n cynnwys y blaenoriaethau canlynol:

- Atal ac ymdrin â digwyddiadau a throseddau
- Diogelu pobl sy'n agored i niwed
- Dwyn pobl i gyfiawnder
- Gwella mynediad at wasanaethau'r heddlu
- Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel
- Gwario'n ddoeth

7.2 Nododd y Comisiynydd nifer o ymrwymiadau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas â gwneud data ar gael i'r cyhoedd gan eu galluogi i farnu cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun. Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer y diben hwn, sydd ar gael yn y cyfeiriad canlynol:

http://www.dyfed-powys.police.uk/cy/about-us/policing-plan/